

# Tyfu Canolbarth Cymru
# Gorffennaf 2024

Croeso i rifyn mis Gorffennaf o gylchlythyr Tyfu Canolbarth Cymru.

Y mis hwn, rydym yn gyffrous i rannu diweddariadau a mentrau allweddol sydd â'r nod o feithrin twf rhanbarthol.

Ymhlith yr uchafbwyntiau mae ymrwymiad Llywodraeth y DU i hybu economi Canolbarth Cymru, dadorchuddio'r Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau wedi'i ddiweddaru yn Sioe Frenhinol Cymru, a chipolwg ar Gynlluniau Ynni Ardal Leol.

Dysgwch am ymdrechion cydweithredol y Grŵp Cynghori Economaidd, y datblygiadau yng Nghymru Ddigidol, a'r alwad olaf i gymryd rhan yn yr arolwg Cefnogi Menter. Yn ogystal, dewch i adnabod Lily Else, ein Swyddog Cymorth Prosiect, a dal i fyny ar newyddion a digwyddiadau eraill sy'n siapio ein rhanbarth.

Helpu i dyfu cyfle yng Nghanolbarth Cymru,

***Tîm Tyfu Canolbarth Cymru***

[Clawr: Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn Datgelu Diweddariad i'w Chynllun Cyflogaeth a Sgiliau yn y Sioe]

## Cynnwys


- **Cadarnhau ymrwymiad Llywodraeth y DU i dyfu economi Canolbarth Cymru**
- **Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn Datgelu Diweddariad i'w Chynllun Cyflogaeth a Sgiliau yn y Sioe**
- **Dod i wybod mwy am y Cynlluniau Ynni Ardal Leol**
- **Grŵp Cynghori Economaidd yn Cydweithio i roi Hwb i Ddatblygu Rhanbarthol**
- **Digidol Cymru**
- **Arolwg Cefnogi Menter - Dyddiau diwethaf i gymryd rhan!**
- **Cwrdd â'r Tîm: Lily Else, Swyddog Cymorth Prosiect – Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru**
- **Newyddion Eraill**


## Cadarnhau ymrwymiad Llywodraeth y DU i dyfu economi Canolbarth Cymru

Ar faes Sioe Frenhinol Cymru ar ddydd Llun yr 22ain o Orffennaf gwnaeth y Fonesig Nia Griffith DBE AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol yn Swyddfa Cymru, gyfarfod â'r Cynghorydd James Gibson-Watt, Arweinydd Cyngor Sir Powys a'r Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion, i drafod y cynnydd a wneir wrth dyfu economi Canolbarth Cymru.

Ewch i'n tudalen newyddion i ddarllen yr erthygl lawn: [www.tyfucanolbarth.cymru/article/16827/Cadarnhau-ymrwymiad-Llywodraeth-y-DU-i-dyfu-economi-Canolbarth-Cymru](www.tyfucanolbarth.cymru/article/16827/Cadarnhau-ymrwymiad-Llywodraeth-y-DU-i-dyfu-economi-Canolbarth-Cymru)



*1 - (Ch-Dd) Y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion, Y Fonesig Nia Griffith DBE AS, Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol yn Swyddfa Cymru, a'r Cynghorydd James Gibson-Watt, Arweinydd Cyngor Sir Powys, Maes Sioe Frenhinol Cymru.*

## Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn Datgelu Diweddariad i'w Chynllun Cyflogaeth a Sgiliau yn y Sioe

Ar 22 Gorffennaf yn Sioe Frenhinol Cymru, datgelodd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol (PSRh) Canolbarth Cymru ei diweddariad i Gynllun Cyflogaeth a Sgiliau 2022-2025. Mae'n rhoi sylw i anghenion cyflogaeth a sgiliau y rhanbarth sy'n esblygu, gan adlewyrchu twf sectorau a galwadau economaidd.




*2 - (Ch-Dd) Y Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion, Emma Thomas, Cadeirydd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru, a'r Cynghorydd James Gibson-Watt, Arweinydd Cyngor Sir Powys gyda'r Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau, Sioe Frenhinol Cymru.*

Mae'r cynllun wedi'i ddiweddaru yn cynnwys gwybodaeth newydd am y farchnad lafur a data ansoddol, sy'n cynnig rhagolygon twf manwl ar gyfer Powys a Cheredigion. Cydweithiodd PSRh gyda grwpiau clwstwr a arweiniwyd gan fyd busnes i gasglu dirnadaeth o ddiwydiannau penodol, gan sicrhau bod y cynllun yn bodloni galwadau presennol economi Canolbarth Cymru a'i galwadau yn y dyfodol.

Mae'r cynllun wedi'i ddiweddaru yn amlygu meysydd twf allweddol tan 2028, gan gynnwys cynnydd o 6% yn y sectorau adeiladu a chynhyrchu uwch, cynnydd o 9% mewn cynhyrchu bwyd a diod, a thwf o 4% yn y sector digidol. Mae hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd sgiliau sy'n gysylltiedig â Sero Net ac ynni, gan amlygu gofynion y gweithlu sy'n dod i'r amlwg.

Mae PSRh Canolbarth Cymru yn annog rhanddeiliaid, busnesau a'r gymuned i archwilio'r Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau cynhwysfawr ar wefan Tyfu Canolbarth Cymru: www.tyfucanolbarth.cymru/PartneriaethSgiliauRhanbartholCanolbarthCymru

I weld y stori gyfan, ewch i'n tudalen newyddion: https://www.tyfucanolbarth.cymru/article/16829/Partneriaeth-Sgiliau-Rhanbarthol-yn-Datgelu-Diweddariad-iw-Chynllun-Cyflogaeth-a-Sgiliau-yn-y-Sioe

# Dod i wybod mwy am y Cynlluniau Ynni Ardal Leol




Ar ddydd Mercher, 24 Gorffennaf yn y Sioe Frenhinol, roedd Dr Gemma Delafield, ein Harweinydd Ynni Rhanbarthol ar gael i sgwrsio mewn sesiwn galw heibio ynglŷn â Chynlluniau Ynni Ardaloedd Lleol. Roedd hyn yn gyfle i'r cyhoedd dysgu mwy am y cynlluniau ac am y sefyllfa bresennol o ran ynni a thrafnidiaeth ar draws y rhanbarth, a dysgu sut y gallwn ddatgarboneiddio cartrefi a busnesau ar draws Canolbarth Cymru.

Cafodd llawer o bobl geisio adeiladu tŷ cynaliadwy o'r dechrau trwy rhaglen VR. Cafodd y rhaglen VR ei darparu gan Hyfforddiant Adnodd Amgylchedd Rhith Adeiladu CWIC Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant. Mae’r fenter arloesol hon yn defnyddio realiti rhithwir i gynnig hyfforddiant ymdrochol sy’n dynwared sefyllfaoedd go iawn ym maes adeiladu, gan wella sgiliau a gwybodaeth ar gyfer dyfodol cynaliadwy.

Yn ddiweddar, mae Cynghorau Sir Ceredigion a Phowys wedi cymeradwyo eu Cynlluniau Ynni Ardal Lleol (CYALl). Mae’r cynlluniau hyn, a luniwyd ar y cyd gyda rhanddeiliaid amrywiol, ac a ariannir gan Lywodraeth Cymru, yn nodi sut y gall y ddwy ardal symud i system ynni sero net erbyn 2050.

Am ragor o wybodaeth am y CYALl, trowch at: [www.tyfucanolbarth.cymru/Ynni+SeroNet](www.tyfucanolbarth.cymru/Ynni+SeroNet)




## Grŵp Cynghori Economaidd yn Cydweithio i roi Hwb i Ddatblygu Rhanbarthol

Yn ddiweddar, cyfarfu aelodau presennol ac aelodau newydd Grŵp Cynghori Economaidd (GCE) Tyfu Canolbarth Cymru am y tro cyntaf gydag Arweinwyr cynghorau Sir Ceredigion a Phowys yng nghanolfan ymwelwyr Cwm Elan i drafod mentrau strategol Bargen Twf Canolbarth Cymru a chydweithio ar ddatblygu twf economaidd y rhanbarth.

Dywedodd Steve Lesbirel, Cadeirydd GCE, "Bellach, mae gennym grŵp llawn sy'n cynnwys arweinwyr entrepreneuraidd o ddiwydiant ac rydym yn edrych ymlaen gyda'n gilydd a gydag angerdd er mwyn helpu i yrru economi Canolbarth Cymru yn ei blaen.  Mae ein grŵp yn cyflawni rôl allweddol wrth gynnig her strategol ac adeiladol i gryfhau cynigion a chynnig cyngor am gyfleoedd newydd i Fwrdd Tyfu Canolbarth Cymru eu hystyried."

Darllenwch mwy ar ein tudalen newyddion: [www.tyfucanolbarth.cymru/article/16811/Grwp-Cynghori-Economaidd-yn-Cydweithio-i-roi-Hwb-i-Ddatblygu-Rhanbarthol](http://www.tyfucanolbarth.cymru/article/16811/Grwp-Cynghori-Economaidd-yn-Cydweithio-i-roi-Hwb-i-Ddatblygu-Rhanbarthol)



*3 - (Ch-Dd) Cynghorydd Bryan Davies, Arweinydd Cyngor Sir Ceredigion; Steve Lesbirel, Cadeirydd GCE, a Chynghorydd James Gibson-Watt, Arweinydd Cyngor Sir Powys.*

Darllenwch am gefndiroedd a phrofiadau busnes y grŵp ar wefan Tyfu Canolbarth Cymru: www.tyfucanolbarth.cymru/GCE




*4 - Aelodau Grŵp Cynghori Economaidd*

## Digidol Cymru

Mynychodd ein Rheolwr Rhaglen Ddigidol, Dave Owen, sgwrs yn Y Sioe Frenhinol, ar seilwaith digidol yng Nghymru gyda Llywodraeth y DU, darparwyr rhwydweithiau ac arweinwyr Rhaglen Ddigidol eraill Bargen Twf Cymru. Fe wnaethant dynnu sylw at welliannau rhanbarthol sylweddol, diolch i gydweithio â Llywodraethau'r DU a Chymru, a chynnydd parhaus ein Rhaglen Ddigidol. Cyfnod cyffrous i ddyfodol digidol Cymru!



# Arolwg Cefnogi Menter

## Dyddiau diwethaf i gymryd rhan!

Mae Rhaglen Safleoedd ac Eiddo Bargen Twf Canolbarth Cymru yn cyhoeddi arolwg er mwyn deall yn well gynlluniau busnesau ar draws y rhanbarth ar gyfer tyfu yn y dyfodol a'u hangen am eiddo masnachol.

Nod yr arolwg yw nodi'r angen am ymyrraeth ar ffurf cyllid yn y farchnad leol ar gyfer safleoedd ac eiddo masnachol. Bydd yr ymatebion i'r arolwg yn galluogi Tyfu Canolbarth Cymru, sy'n rheoli Bargen Twf Canolbarth Cymru, i ystyried amrywiaeth o opsiynau o ran cymorth, a allai helpu busnesau i gyflawni eu nodau o ran datblygu.


Mae Tyfu Canolbarth Cymru am gasglu cynifer o ymatebion ag sy'n bosibl fel y gellir dadansoddi'r data sy'n dod i law er mwyn deall y galw am gymorth. Yna, bydd Tyfu Canolbarth Cymru yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i adolygu'r opsiynau a gweld beth yw eu hyd a'u lled.

Bydd yr arolwg ar agor tan **09 Awst** 2024 a chaiff pob busnes ei annog i gymryd rhan. I gymryd rhan, ewch i: https://bit.ly/SupportingEnterpriseSurvey (Defnyddiwch y gwymplen 'English' ar y dde i newid i'r ffurflen Gymraeg)



## Cwrdd â'r Tîm

### Lily Else Swyddog Cymorth Prosiect – Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru



**Pryd y gwnaethoch ddechrau gyda'r tîm?**

*Dechreuais gyda'r tîm ym mis Ionawr 2023. Cyn ymuno â'r PSRh, gweithiais i Gyngor Sir Powys yn cefnogi'r tîm Profi, Olrhain a Diogelu Covid.*

**Allwch chi ddweud mwy wrthym am eich rôl?**

*Fel Swyddog Cymorth Prosiect, rwy'n cefnogi ein Swyddog Prosiect a'n Swyddog Ymgysylltu â Chyflogwyr i gyflawni amcanion yr PSRh, sy'n cynnwys cydweithredu a chydlynu parhaus. Yn fwy penodol, mae fy rôl yn cynnwys casglu a dadansoddi gwybodaeth am y farchnad lafur i gefnogi gwaith yr PSRh.*

**Beth yw eich blaenoriaethau presennol?**

*Mae fy mlaenoriaethau presennol yn parhau i sefydlu sylfaen dda o wybodaeth am y Farchnad Lafur i gefnogi gwaith y tîm. Mae hyn yn golygu bod yn ymwybodol o ddatblygiadau yn y rhanbarth a chyfathrebu rheolaidd o fewn y tîm. Yn ddiweddar, rwyf wedi bod yn gweithio ar gydlynu grwpiau ffocws o ddysgwyr yn y rhanbarth i gael dealltwriaeth o'u persbectif tuag at ganllawiau gyrfaoedd a gynigir ar hyn o bryd, gan gyfrannu at y Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau wedi'i ddiweddaru a'n digwyddiad Sioe Frenhinol yn ddiweddar.*

**Pa ddatblygiadau yr ydych wedi'u gweld dros y blynyddoedd?**

*Ers ymuno â'r tîm, rwyf wedi gweld twf a datblygiad sylweddol. Rydym wedi sefydlu grwpiau clwstwr, datblygu gwefan newydd, ac wedi codi proffil yr PSRh ymhlith busnesau a sefydliadau rhanddeiliaid*

*yn y rhanbarth. Gallwn cael mwy o ffocws yn ein gwaith ac rydym wedi meithrin cysylltiadau cryfach â busnesau yn y rhanbarth, sy'n cael ei adlewyrchu yn ein diweddariad Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau newydd.*

**Beth yw eich cyflawniad mwyaf?**

*Mae hyn yn anodd gan fod llawer o fy ngwaith yn darparu cefnogaeth y tu ôl i'r llenni ac mae cyflawniadau yn ymdrech y tîm i gyd. Yn ddiweddar, enillais gymhwyster mewn Rheoli Prosiectau - mae hynny'n gyflawniad eithaf mawr ac rwy'n edrych ymlaen at roi'r wybodaeth a gafwyd i ddefnydd da yn y rôl hon. Y tu allan i'r gwaith, rwyf wedi goroesi fy ngradd ôl-raddedig!*

**Un gair sy'n crynhoi Tîm Tyfu Canolbarth Cymru:**

*Cysylltiedig. Nid yw ein gwaith wedi'i silio ac mae integreiddio, ar draws timau PSRh a TCC a chyda sefydliadau y tu allan i TCC, yn ein gwneud yn llwyddiannus.*

## Newyddion Eraill

### Archwiliad mewn i arferion ymarfer corff a thrafnidiaeth weithredol mewn ardaloedd lled-wledig a gwledig.

Mae'r astudiaeth hon yn archwilio arferion ymarfer corff a thrafnidiaeth weithredol mewn ardaloedd lled-wledig a gwledig 🚲

https://app.onlinesurveys.jisc.ac.uk/s/aber/exercise-active-transport

* Mae'r meini prawf cynhwysiant yn bod yn eich 40au a'ch 50au ac yn byw mewn lleoliad lled-wledig neu wledig.

Dyddiad cau **5 Awst**.

### Dylanwad agweddau a ffactorau sy'n gysylltiedig â defnyddioldeb ar ddewisiadau cymudo trigolion Cymru lled-wledig

Mae tîm y prosiect, o Brifysgol Aberystwyth, yn recriwtio trigolion ardaloedd lled-wledig yng Ngheredigion, rhwng 25 a 60 oed, i gymryd rhan mewn astudiaeth ymchwil, sydd yn edrych i ba raddau y mae ffactorau affeithiol ac ymarferol yn gysylltiedig â phenderfyniadau trigolion lled-wledig ar ddewisiadau trafnidiaeth, yn ogystal â sut y gallai gwyddoniaeth newid ymddygiad gyfrannu at annog trigolion i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus.

Bydd yr astudiaeth yn cynnwys cyfweliad ar-lein tuag awr o hyd a gynhelir ar Microsoft Teams, a fydd yn cael ei recordio at ddibenion trawsgrifio. Gofynnir cyfres o gwestiynau i chi am eich arferion cymudo/teithio a'ch barn ar sut y gellid gwella cludiant cyhoeddus yng Nghymru.

Os oes gennych ddiddordeb mewn darganfod mwy, e-bostiwch yr ymchwilydd Marianna Kowalewska ar mzk@aber.ac.uk i ofyn am gopi o'r wybodaeth yr astudiaeth.

## Keep up to Date

A oes angen i chi ddal i fyny gyda'r hyn a drafodwyd yn ein cyfarfodydd? Dyma nodyn i'ch atgoffa o ble y gallwch gael gafael ar gofnodion y cyfarfodydd canlynol:

- Caiff yr holl gofnodion sy’n ymwneud â Bwrdd Tyfu Canolbarth Cymru eu cynnwys ar wefan Cyngor Sir Powys.
- Gellir gweld papurau sy’n ymwneud â Phartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru ar ein gwefan.

Gallwch weld y newyddion diweddaraf am Dyfu Canolbarth Cymru, datblygiadau am weithgarwch a sefydliadau yr ydym yn eu cefnogi trwy ddilyn ein tudalennau Linked In a Twitter:

https://twitter.com/growingmidwales

www.linkedin.com/company/growing-mid-wales

https://www.youtube.com/@TCC-GMW

Rydym yn awyddus i estyn allan i gymaint o sefydliadau a busnesau ag y bo modd ar draws Canolbarth Cymru, a gallwch chi sicrhau bod hyn yn bosibl trwy ddilyn, hoffi a rhannu ein tudalennau.

Ymwadiad:  Fel Rhanddeiliad Tyfu Canolbarth Cymru, rydych chi’n cael y negeseuon e- bost hyn er mwyn i ni allu rhannu newyddion a gwybodaeth gyda chi yn rheolaidd. Gallwch ein hysbysu os nad ydych yn dymuno cael y negeseuon e-bost hyn mwyach trwy anfon e-bost at tyfucanolbarthcymru@ceredigion.llyw.cymru.

Tyfu
Canolbarth Cymru
Growing
Mid Wales